| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Gorffennaf 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Arweinydd/Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau** |
| **Teitl:** | **Diweddariad Cynllun Lles Sir Ddinbych** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Cynllun Lles Sir Ddinbych – y Cynllun Integredig Sengl.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar gynnydd y cynllun prosiect ar gyfer cyhoeddi ail Gynllun Integredig Sengl Sir Ddinbych (CIS o hyn allan).

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
Ystyried Cynllun Lles Sir Ddinbych gan roi sylwadau yn ôl yr angen.

**4. Manylion am yr adroddiad**

**4.1 Gwybodaeth Gefndir**

4.1.1 Mae rhan 1 y Cynllun Mawr (YCM1) yn dangos manteision cynllunio integredig, gan gynnwys: symleiddio Tîm Partneriaethau a Chymunedau integredig; datblygu asesiad anghenion integredig sengl; datblygu fframwaith rheoli perfformiad ar y cyd a gwell cydlynu ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned.

4.1.2. Gan adeiladu ar eu profiad o ddatblygu ac adrodd ar y Cynllun Mawr Rhan 1, addasodd Bwrdd Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych (DSPB), eu hymagwedd at ffurfio'r Cynllun Integredig Sengl nesaf (CIS) i
- Leihau nifer y canlyniadau i fynd i'r afael â nhw yn y Cynllun Integredig Sengl
- Mabwysiadu fframwaith gwerthuso ystyrlon ar gyfer gweithgareddau perfformiad a gwelliant i allu nodi yn well sut y mae dinasyddion Sir Ddinbych yn well eu byd.

4.1.4 Mae gwaith Bwrdd Partneriaethau Strategol Sir Ddinbych wedi'i ategu gan nifer o grwpiau tasg a gorffen i gyfarwyddo Bwrdd Partneriaethau Strategol Sir Ddinbych ar gyflawni gweithredol o fewn meysydd blaenoriaeth a chynghori ar sut y gellir gwireddu buddion.

**4.2 Asesiad Anghenion**

4.2.1 Roedd y gweithgaredd asesiad anghenion yn canolbwyntio o reidrwydd ar ymchwilio a chyhoeddi data lleol hysbys â thema ochr yn ochr ag amlygu arfer da neu ymatebion arloesol i'r themâu o bob cwr o'r wlad a'r byd.

4.2.2 Mae'r dull hwn wedi ceisio cyfuno data asesu anghenion gyda rhagfynegiadau anghenion yn y dyfodol sy'n cysylltu â newid economaidd a/neu ddemograffig.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu a'i fireinio drwy gydol oes Cynllun Lles Sir Ddinbych.

4.2.3 Yr uchelgais yw creu proffil asesiad anghenion partneriaeth parhaus ar gyfer Sir Ddinbych sy'n cael ei fireinio'n barhaus wrth i wybodaeth newydd gael ei chasglu a'i chyhoeddi yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

**4.3 Monitro Perfformiad**

4.3.1 Yn unol â'r egwyddor o ymagwedd symlach, bydd Cynllun Lles Sir Ddinbych yn gofyn am agwedd ysgafnach o ran monitro perfformiad.

4.3.3 Bydd y themâu a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer Cynllun Lles Sir Ddinbych yn parhau i fod yn gyson, ond bydd y gweithgareddau sy'n arwain at y canlyniadau yn fwy llyfn nag yn y Cynllun MAWR Rhan 1. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer dull arloesol a hyblyg i gyflawni canlyniadau, a bydd yn cefnogi'r pwyslais ar ganfod canlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Bydd adolygiad cyson o ddata asesu anghenion ynghyd ag asesiad deinamig o weithgareddau a gynlluniwyd i gyflawni'r canlyniadau yn creu cynllun bywiog ac ystyrlon sy'n cael ei gydnabod gan bawb.

**4.4 Cyhoeddi Cynllun Lles Sir Ddinbych**

4.4.1 Mae'r Cynllun drafft (Atodiad 1) ar hyn o bryd wedi'i gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r fframwaith cyflenwi a ddisgrifir uchod yn creu model 3-dimensiwn ar gyfer Cynllun Lles Sir Ddinbych sy'n mynnu dull cyhoeddi arloesol.

4.4.2 Mae ymchwiliad yn cael ei gynnal i fodel ar y we, sy'n caniatáu ar gyfer golwg syml o Gynllun Lles Sir Ddinbych ac, ar yr un pryd, yn caniatáu ar gyfer asesiad mwy manwl o'r hyn sy'n cael ei wneud, gan bwy, pam, a pha wahaniaeth sy'n cael ei wneud.

4.4.3 Bydd dulliau eraill o gyhoeddi hefyd yn cael eu hystyried i sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad ac effeithiolrwydd cost.

**5 Meysydd sy'n peri pryder / y dylai Aelodau wybod amdanynt**

5.1 Dylai partneriaid a budd-ddeiliaid fod yn sicr bod y blaenoriaethau yn y Cynllun MAWR Rhan 1 yn feysydd o weithgarwch partneriaeth i wella canlyniadau i drigolion, er y bydd y CIS yn canolbwyntio ar nifer lai o themâu ar gyfer y cyfnod nesaf.

5.2 Oherwydd ymgysylltu anghyson gyda'r holl bartneriaid trwy gamau cynllunio Cynllun Lles Sir Ddinbych, bydd angen i aelodau fod yn sicr bod gan y mentrau ymrwymiad ar y cyd gan yr holl bartneriaid yn Sir Ddinbych i sicrhau bod y cynllun yn cael cyseiniant ar draws y sir.

**6 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

6.1 Mae cynllun integredig sengl yn diwallu'r dyletswyddau statudol mewn perthynas â datblygu cynlluniau a strategaethau sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 2: A37-46), Deddf Plant 2004 (Rhan 3: A26), Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Rhan 3: A40) a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Rhan 1: A6).

## 7. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1 Nid oes arian ychwanegol ar gael i gyflwyno'r CIS: bydd partneriaid yn ystyried yr achos busnes ar gyfer pob menter arfaethedig yn ofalus, ac yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer defnydd cynaliadwy o adnoddau presennol i ddiwallu'r canlyniadau a nodwyd.

## 8. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

8.1 Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Lles Sir Ddinbych yn cael ei adolygu yn ddynamig ochr yn ochr â datblygiad y cynllun a bydd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

## 9. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

9.1 Mae rhaglen o weithgareddau ymgysylltu wedi'i chynnal dros gyfnod o sawl mis. Cynlluniwyd cam cyntaf y broses ymgysylltu i hysbysu drafftio Cynllun Lles Sir Ddinbych, a cafodd hwn ei ddilyn gan y cyfnod ymgynghori cyfredol pan fydd y ddogfen ddrafft yn cael ei rhannu yn eang gyda phartneriaid a'r gymuned yn gyffredinol.

9.2 Mae'r **Gweithgor Ymgysylltu** yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Choleg Llandrillo. Paratôdd y grŵp holiadur generig a ddosbarthwyd yn eang mewn amryw o ddigwyddiadau, cyfarfodydd a grwpiau wedi'u targedu yn ystod misoedd yr haf. Gofynnodd yr holiadur i bobl nodi pa dri pheth y byddent yn hoffi ei newid yn Sir Ddinbych, sut y gallant fod yn rhan o sicrhau newid ac ym mha ardal o'r sir y maent yn byw. Roedd yr holiadur hefyd yn rhestru'r blaenoriaethau presennol ac yn gofyn i drigolion sgorio yn nhrefn pwysigrwydd.

- Dosbarthwyd holiadur a 'phecyn briffio' cefnogi mewn digwyddiadau pentref yn yr haf, sioeau sirol a grwpiau wedi'u targedu fel tenantiaid tai a, thrwy Survey Monkey, gweithwyr sefydliadau partner sy'n byw a/neu'n gweithio yn Sir Ddinbych.
- Cynhaliwyd digwyddiadau penodol i gynnwys barn dau grŵp ‘anodd eu cyrraedd’ a nodwyd: sef cymunedau gwledig Sir Ddinbych a barn pobl ifanc.
- Mae dros 170 o ymatebion unigol wedi'u derbyn a'u coladu. Hefyd, dadansoddwyd barn dau Weithdy Trydydd Sector a Chynhadledd Pobl Ifanc.

9.3 **Adborth Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

Gellir gweld dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgysylltu yn Atodiad 2. Ymddangosodd ambell drywydd cyffredin a oedd yn hysbysu drafftiau cynnar Cynllun Lles Sir Ddinbych:

- Mae ymatebion o'r Rhyl yn awgrymu bod trigolion yn pryderu am yr elfen ‘negyddol’ sy'n amgylchynu'r dref a'r farn o ddelwedd wael ac enw annheg sy'n cael eu meithrin gan y cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn sylweddol wahanol i'r adborth gwreiddiol yn

ymwneud â'r Cynllun MAWR Rhan 1 yn 2010 pan oedd yr angen am fuddsoddiad yn ofyniad allweddol.

- Daw materion gwledig i'r amlwg gyda diffyg cludiant gwledig, mynediad band eang gwael a thai ar gyfer pobl ifanc, cefnogaeth ar gyfer 'teuluoedd diamddiffyn' a chefnogaeth ar gyfer yr henoed.
- Mae'r materion yn ymwneud â phobl ifanc yn cynnwys diffyg trafnidiaeth gyhoeddus a fforddiadwy, mynediad i gyfryngau cymdeithasol, eu cefnogi i gael cyfleoedd cyflogaeth, a mwy o addysg ym maes iechyd.
- Darparu rhagor o gyfleoedd swyddi o ansawdd, hyfforddiant, prentisiaethau, cyngor gyrfa a chyfleoedd gwirfoddoli.
- Pryder ynghylch y gostyngiad demograffig yn y defnydd o'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant.

9.4 Y cyfnod ymgynghori ffurfiol yw 15 Mai i 31 Awst ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y Cynllun drafft yn cael ei ddosbarthu yn eang a bydd ymatebion yn cael eu casglu.

9.5 Bydd drafft terfynol y Cynllun Lles yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 4 Tachwedd.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Gyda gostyngiad sylweddol o ran maint a chwmpas ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl, mae risg y bydd Sir Ddinbych yn cael ei herio o ran sut yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau statudol. Felly, bydd y cyswllt clir rhwng dyletswyddau statudol a gweithgareddau partneriaeth i gefnogi cyflwyno'r Cynllun Integredig Sengl yn cael ei wneud yn eglur ar adeg cyhoeddi

10.2 Bydd llwyddiant y Cynllun Integredig Sengl yn dibynnu ar gynnwys partneriaid ac ymgysylltu'n ystyrlon â'r cyhoedd a phartneriaid. Er mwyn sicrhau cyd berchnogaeth o'r Cynllun Integredig Sengl, bydd yn cael ei gadarnhau gan fyrddau holl sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a bydd perfformiad yn cael ei fonitro'n agos gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn y dyfodol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mae Erthyglau 6.1 a 6.3.3(a) Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau archwilio mewn perthynas â'r Cynllun Integredig Sengl.

**Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau
Rhif ffôn: 01824 706291

**Papurau Cefndir:**

Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru): http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?lang=en

Cydamcanu - Cydymdrechu (Llywodraeth Cymru): http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/sharedpurpdel/?lang=en